

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

1. Dechrau

1.6 Statws elusennol



Beth yw elusen?

Mae Deddf Elusennau 2011 yn diffinio elusen fel mudiad sy'n bodoli:

- ar gyfer amcanion elusennol yn unig
- ar gyfer lles cyhoeddus

Mae'r Ddeddf hefyd yn diffinio 'diben elusennol' yn un sy'n disgyn yn y rhestr ganlynol o ddisgrifiadau o ddibenion:

- ataliad neu ryddhad tlodi
- dyrchafiad addysg
- dyrchafiad crefydd
- dyrchafiad iechyd neu achub bywydau
- dyrchafiad dinasyddiaeth a datblygiad cymunedol
- dyrchafiad y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth
- dyrchafiad chwaraeon amatur
- dyrchafiad hawliau dynol, datrys gwrthdaro neu gymodi, neu hyrwyddo harmoni hiliol neu gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- dyrchafiad diogelu neu welliant amgylchfydol
- rhyddhad y rhai anghenus oherwydd ieuencid, oedran, afiechyd, anabledd, caledi ariannol neu anfantais arall.
- dyrchafiad lles anifeiliaid
- hyrwyddo effeithiolrwydd lluoedd arfog y Goron: neu effeithiolrwydd y gwasanaethau heddlu, tan ac achub neu wasanaeth ambiwlans, a;
- unrhyw bwrpas elusennol cyfreithiol arall.

Mae pob eitem a restrir yn ddisgrifiad o elusen yn hytrach na diben elusennol ynddo'i hun. Mae'r categori olaf yn golygu fod popeth sy'n elusennol yn gynwysedig, ac mae'n caniatáu'r Llysoedd i gyflwyno amcanion elusennol eraill wrth iddynt godi.

Yn ogystal â dangos bod yr elusen yn dilyn un neu fwy o amcanion elusennol, rhaid i bob elusen barchu cyfarwyddyd y Comisiwn Elusen a dangos sut y bydd yn traddodi lles cyhoeddus.

Pa amodau eraill sydd?

- Rhaid i bob amcan a bwriad (yr ‘amcanion’) a osodir yn nogfen lywodraethol yr elusen fod yn gyfan gwbl elusennol. Dyma brif amcanion yr elusen.
- Rhaid i elusen ddilyn gweithgareddau sy'n hyrwyddo ei brif amcanion.
- Gall elusen ddilyn gweithgareddau ymgyrch a pholiteicaidd mewn modd cyfyngedig, a dim ond os yw'n ymestyn ei amcanion elusennol.
- Ni all elusen weithredu ar sail sylweddol neu reolaidd drwy godi arian yn unig - ond gall weithredu yng nghwrs cynnal prif amcan yr elusen.
- Rhaid i ddogfen lywodraethol yr elusen gael cymal diddymiad i sicrhau os daw'r elusen i ben, bydd yr asedau sy'n weddill yn pasio ymlaen i fudiad arall sy'n ymroddi at amcanion elusennol tebyg.
- Gall yr elusen gymhwyso'i asedau i hyrwyddo'r amcanion yn unig, ac ni all eu dosbarthu er lles personol yr ymddiriedolwyr (os na awdurdodwyd hynny gan y ddogfen lywodraethol neu'r Comisiwn Elusennau), neu elw preifat unrhyw drydydd parti.

Oes rhaid i elusen gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau?

Yn gyfreithiol, mae'n ofynnol i elusen gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau os oes ganddo:

- incwm blynyddol o £5000 neu fwy, ac
- wedi'i lleoli yng Nghymru neu Loegr.

Does dim rhaid i elusennau bach o dan y swm hwn gofrestru, ac mae rheoleiddwyr ar wahân ar gyfer elusennau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Os nad yw elusen wedi'i chofrestru, nid yw'n llai o elusen, yr oll mae'n ei olygu yw na ellir ond cyfeirio ati fel elusen yn hytrach nag elusen gofrestredig. Rhaid iddi dal lynu wrth gyfraith elusennol gyffredinol, a bydd o dan awdurdodaeth y Comisiwn Elusennau beth bynnag.

Nid yw'n ofynnol i rai elusennau gofrestru â'r Comisiwn Elusennau, gan eu bod wedi'u 'hesgusodi' neu eu 'heithrio':

- *Elusennau wedi'u hesgusodi* - elusennau a arolygir gan reolydd heblaw'r Comisiwn Elusennau (e.e. yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol neu'r Gorfforaeth letya)
- *Elusennau wedi'u heithrio* – mae rhai elusennau o fathau penodol wedi'u heithrio rhag cofrestru os yw eu hincwm o dan drothwy penodol (e.e. rhai elusennau crefyddol, y Sgowntiaid a'r Geidiaid, a rhai o gronfeydd elusennol y lluoedd arfog)

Mae gan y Comisiwn Elusennau fwy o fanylion ynghylch elusennau wedi'u hesgusodi ac elusennau wedi'u heithrio ar ei wefan os ydych am gael gwybod mwy.

Beth yw manteision bod yn elusen gofrestredig?

- Mae'n dda ar gyfer hyder y cyhoedd yn y mudiad gan fod cofrestru â'r Comisiwn Elusennau yn cael ei weld yn aml fel arwydd o ddibynadwyaeth a'ch bod yn elwa'r cyhoedd.
- Mae rhai cyrff ariannu a rhoddwyr preifat yn rhoi i elusennau cofrestredig yn unig.
- Rhyddhad gorfodol o 80% ar drethi busnes, gydag 20% pellach yn ôl disgresiwn sy'n golygu y gall rhai awdurdodau lleol roi rhyddhad cymaint â 100% i elusennau.
- Rhyddhad treth - e.e. treth incwm, treth gorfforaeth, treth enillion cyfalaf, treth stamp a chonsesiwn TAW.
- Gall fod yn haws i ddenu gwirfoddolwyr.
- medru adennill treth a dalwyd gan roddwyr sy'n cyfrannu drwy GiftAid, cyfamodau neu ddiwynnu o gyflog.

Pam fod rhaid i elusennau gofrestru?

Am ei fod yn ofynnol gan gyfraith elusen i elusennau gael eu sefydlu er lles y cyhoedd (h.y. y corff llywodraethol), ac felly rhaid bod yn atebol yn gyhoeddus. Maen nhw'n gyfrifol am arian ac eiddo a gyfrannwyd gan eraill ar gyfer amcanion penodol elusennol, ac mae elusennau yn mwynhau buddion cyllidol sy'n effeithio ar gronfeydd cyhoeddus megis rhyddhad treth (fel y nodir uchod).

Beth am fudiadau sydd ag amcanion rhannol elusennol, ond ddim yn gyfan gwbl?

Os yw'r mudiad eisiau statws elusennol, rhaid rhoi terfyn ar weithgareddau sydd ddim yn elusennol gan na all elusen gofrestru onid yw ei dibenion hyn gyfan gwbl elusennol. Mewn sefyllfa o'r fath byddai angen i'r mudiad benderfynu a yw buddion statws elusennol yn werth gwneud hynny, neu gellir dechrau mudiad ar wahân/is-gwmni i gyflawni'r gweithgareddau yma (e.e. masnachu).

Beth os yw elusen eisiau masnachu i godi arian at ei gwaith?

Gall elusen fasnachu os yw'r fasnach hynny yn hyrwyddo neu'n ategol i'w wrthrychau. Dylid cyflawni unrhyw fasnach sydd ddim yn elusennol (mae yna eithriad ar gyfer masnach ar raddfa fach) drwy gwmni masnach ar wahân. Gellir pasio nôl unrhyw elw mewn modd effeithiol o ran treth.

Pa fath o strwythur cyfreithiol y dylai elusen gael?

Mae strwythur cyfreithiol elusen yn hollol wahanol i'w statws elusennol. Mae 'statws elusennol' yn cyfeirio at a yw'r mudiad yn elusen gofrestredig ai peidio, ond gallai'r mudiad hwnnw gael un o blith nifer o strwythurau cyfreithiol. Fel arfer bydd mudiadau gwirfoddol yn dewis mabwysiadu un o'r strwythurau cyfreithiol canlynol: cymdeithas anghorfforedig, cwmni cyfyngedig drwy warant neu ymddiriedolaeth.

Mae Deddf Elusennau 2006 hefyd wedi cyflwyno strwythur cyfreithiol newydd, Y 'Mudiad Elusennol Corfforedig' (CIO), a ddaeth ar gael (ar ôl llawer o oedi) ym mis Rhagfyr 2012. Dyma strwythur cwmni a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer elusennau sy'n cael ei gan y Comisiwn Elusennau yn unig, ac felly'n gwaredu'r angen am adrodd deul i'r Comisiwn a Thŷ'r Cwmni. Mae'r strwythur, serch hynny, wedi'i gyflwyno'n raddol ar gyfer mudiadau newydd sy'n dewis strwythur cyfreithiol am y tro cyntaf, neu fudiadau sydd eisoes yn bod sydd am newid eu strwythur cyfreithiol presennol i CIO. Os ydych yn ystyried CIO fel strwythur cyfreithiol i'ch mudiad, edrychwch ar wefan y Comisiwn Elusennau i weld a ydych yn gallu bwrw ymlaen â hyn ar hyn o bryd, gan ddibynnu ar eich sefyllfa.

Mae manylion pellach amrywiaeth o strwythurau cyfreithiol, gan gynnwys y rhai a nodir uchod, ar gael yn [1.5 Dewis strwythurau cyfreithiol](#).

Sut allwn ni sicrhau fod ein dogfen lywodraethol yn dderbyniol gan y Comisiwn Elusennau?

Fel cyfarwyddyd, gweler [dogfennau enghreifftiol y Comisiwn Elusennau](#), sy'n cynnwys:

- Memorandum and Articles of Association for a charitable company (GD1)
- Model trust deed for a charitable trust (GD2)
- Constitution for an unincorporated association (GD3)
- Association or foundation model constitution for a CIO
- Constitution for a small charity

Mae rhai elusennau cenedlaethol mawr yn cynhyrchu dogfennau safonol a gymeradwyir gan y Comisiwn Elusennau a ellir eu defnyddio gan fudiadau sy'n gysylltiedig â'r elusen honno. Mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu [rhestr o'r mudiadau hyn ar ei wefan](#).

Rydyn ni eisiau bod yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestedig; pa un ddylwn ni wneud gyntaf?

Ar hyn o bryd, rhaid i bob cwmni gofrestru gyda Thŷ'r Cwmni, a rhaid i elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn Elusennol yn medru cofrestru mudiad sydd ddim yn bodoli, felly rhaid cofrestru cwmni cyfyngedig drwy warant yn gyntaf - *ond sicrhewch fod eich dogfen lywodraethol yn dderbyniol gan y Comisiwn Elusennau cyn gwneud hynny (megis un o'u modelau)*.

DS – Os ydych yn gobeithio sefydlu mudiad fel CIO, dim ond â'r Comisiwn Elusennau y bydd raid i chi gofrestru, yn hytrach na chyda nhw a Thŷ'r Cwmni (gweler uchod).

Pan fyddwch yn barod i gofrestru:

[Cysylltwch â'r Comisiwn Elusennau](#) a gofynnwch am Becyn Cofrestru (ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg), neu [lawr lwythwch y pecyn o'r wefan](#).

Mynd i'r afael â'r jargon

Amcanion elusennol - dyma derm arall am ddibenion eich elusen, neu ei nod a'i hamcanion, y mae'n rhaid i chi weithredu oddi mewn iddynt.

Ymddiriedolwyr – mae adran 97 o Ddeddf Elusennau 1993 yn diffinio ymddiriedolwyr fel 'pobl sydd â rheolaeth gyffredinol o weinyddiaeth elusen. Mae'r rhain yn nodweddiadol yn aelodau llawn o'r corff llywodraethol y gellir eu galw'n amrywiol o enwau, gan gynnwys: ymddiriedolwyr rheoli, aelodau pwyllgor, llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr. DS: os yw rhywun ar gorff llywodraethol mudiad sydd hefyd yn gwmni, bydd yn cael ei gyfrif yn ôl y gyfraith yn gyfarwyddwr ar y cwmni hwnnw (yn ôl cyfraith cwmnïau) yn ogystal â bod yn ymddiriedolwr yn ôl cyfraith elusennau.

Dogfen Lywodraethol - unrhyw ddogfen sy'n gosod allan amcanion yr elusen, a sut y'i gweinyddir. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, memorandwm cymdeithasiad, a llai nodweddiadol, ewyllys, trosglwyddiad, Siarter Brenhinol, neu Gynllun Comisiynwyr Elusennol. Mae'r maath o ddogfen lywodraethol a ddefnyddir i sefydlu mudiad fel arfer yn cael ei benderfynu gan y strwythur cyfreithiol a ddewiswyd ar gyfer y mudiad hwnnw.

Atebolrwydd cyfyngedig - yn y mwyafrif o achosion diogelir y cyfarwyddwyr (aelodau'r corff llywodraethol) rhag atebolrwydd personol, ac mae'r cwmni yn atebol am ddyledion yn unig hyd at swm yr asedau sydd ar gael. Bydd hyn yn cynnwys swm taliadau gwarant yr aelodau (gweler isod). Mae mwy o wybodaeth am atebolrwydd cyfyngedig ar gael yn [5.7 Atebolrwydd llywodraethwyr ac aelodau corff llywodraethu](#).

Cwmni cyfyngedig drwy warant - mae aelodau cwmni yn gwarantu i dalu swm penodedig os yw cwmni yn galw'r warant neu'n dod i ben, fel arfer swm rhwng £1 a £10. Yn annhebyg i gwmni a gyfyngir gan gyfranddaliadau, ni ddosbarthir elw i'r aelodau, ond gallant bleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol. Dyma strwythur safonol y cwmni a ddefnyddir yn y trydydd sector.

Mudiad Elusennol Corfforedig (CIO) – Mae CIO yn strwythur cwmni a gafodd ei greu yn benodol i elusennau, ac mae ganddo Gyfansoddiad, yn hytrach na Memorandwm ac Erthyglau Cwmni (a ddefnyddir gan strwythurau cwmniol eraill). Rhaid i'r brif swyddfa fod yn Lloegr neu Gymru, a rhaid iddo gael un neu fwy o aelodau. Mae atebolrwydd cyfyngedig yn berthnasol i CIO yn yr un modd ag y mae i gwmnïau cyfyngedig drwy warant (gweler uchod).

Gall CIO cael corff o aelodau ar wahân i ymddiriedolwyr yr elusen (CIO mudiadol) neu gall yr ymddiriedolwyr a'r aelodau fod yr un bobl (CIO sylfaenol). Mae modelau'r cyfansoddiadau yma ar gael ar [wefan y Comisiwn Elusennau](#).

Mudiad anghorfforedig - grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd ar gyfer amcan cyffredin ac sy'n cytuno i cyfyngu wrth set o reolau a elwir yn Gyfansoddiad. Nid ystyrir y fath fudiadau yn hanfod cyfreithiol ar wahân, ac felly ni cheir atebolrwydd cyfyngedig fel y ceir mewn mudiadau corfforedig.

Ymddiriedolaeth - Mae ymddiriedolaeth yn strwythur cyfreithiol sy'n codi ble roddir eiddo i berson neu bersonau a elwir yn ymddiriedolwyr. Mae'r ymddiriedolwyr hyn yn dal yr eiddo er lles y bobl eraill a elwir yn fuddiolwyr. Nodir, fel arfer, diddordeb y buddiolwyr mewn dogfen ymddiriedolaeth sy'n creu'r ymddiriedolaeth. Nid ystyrir ymddiriedolaethau yn hanfod cyfreithiol ar wahân, ac felly ni cheir atebolrwydd cyfyngedig fel y ceir mewn mudiadau corfforedig.

Cyngor pellach

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru

Ffon: 0845 3000 218

www.charity-commission.gov.uk

Tŷ'r Cwmnïau

Ffon: 0303 1234 500

<https://www.gov.uk/government/organisations/companies-house>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

Tŷ Margaret Thorne, 17-19 Stryd Alfred, Castell Nedd, Castell Nedd Phort Talbot, SA11 1EF

Elusen Gofrestredig: 1064450

Ffôn: 01639 631246

info@nptcvs.org.uk

Ffacs: 01639 643368

www.nptcvs.wales



Ffôn: 0300 111 0124

www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 10/01/2017